BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 18, 2024

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Mehefin 18, 2024 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Karen Goswell, Emlyn Roberts, Robin Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Gerallt Griffith
Is Gadeirydd: Robin Jones

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Gerallt Griffith, Robin Jones

Cafodd Meurig ei ddiolch gan Gerallt am fod yn Gadeirydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn diwethaf.

**4. Datgan diddordeb.**

Roedd Karen yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio. Eitem 8,a.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 21, 2024.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 21, 2024.**

Eitem 12.a. Llythyr (7/6/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae trefniant wedi ei wneud i lenwi'r tyllau ar y ffordd wrth Capel Abergeirw ac ar ffordd Rhiw Felen.

Eitem 8.c. Llythyr (11/6/2024) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod ei bod wedi cael ateb gan Swyddog y Parc ynglŷn â Caerynwch. Mae'n dweud bod y ddwy apêl cynllunio wedi methu ynglŷn ag unedau gwyliau sydd wedi cael eu hadeiladu heb ganiatâd a hefyd mater y tŷ sydd wedi ei restru. Mae defnyddiau anaddas wedi ei ddefnyddio ar gyfer tŷ. Mae'r Parc yn gobeithio cael cyd-weithrediad y perchnogion i ddatrys y materion hyn cyn symud ymlaen i sefyllfa o orfodaeth.

**7. Gohebiaeth**

a. Llythyr (22/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen o weithio yn ddigidol mewn cyfarfodydd.

b. Llythyr (12/6/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen canllawiau at 'Cyfarfodydd Aml-leoliad' defnyddio Zoom a.y.y.b..

c. Llythyr (23/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen 'Amserlen Camau y Cyfnod Cyn Etholiad' sy'n rhoi gwybodaeth beth sydd ddim yn cael ei ganiatau ei wneud gan gynghorau cymuned a thref yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad bydd ar Orffennaf 4.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (30/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau dyddiadau hyfforddiant Mehefin, Gorffennaf a Medi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (5/6/2024) oddi wrth Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Maent wedi sefydlu Rhaglen Wrando Genedlaethol i gael gwybodaeth leol ynglŷn â 20mya sydd wedi cael ei sefydlu ar ein ffyrdd. Os mae sylw angen ei roi i newid 20mya i 30mya, neu newid 30mya i 20mya, neu aros yn 20mya mae'r llythyr yn rhoi gwybodaeth pwy i gysylltu; os mae sylw maent angen rhesymau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (14/6/2024) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd sesiwn ynglŷn â thrafod Cynllun Ardal Ni Dalgylch Dolgellau yn cael ei gynnal yn y Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 5.30 i 7.30 yh ar 17/6/2024. Amgáu mae dogfen cynllunio drafft.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/18C. Newid defnydd o dir preswyl i ymgorffori defnydd busnes a gosod pabell fawr at ddibenion cynnal gweithdai cerameg. Gornant, 4 Tai Baldwin, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/5/2024)..

b. Cais cynllunio NP5/54/136H. Amrywio Amod 2 (Cynlluniau a dogfennau a gymeradwyd) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/54/136G dyddiedig 05/01/2024 Gwel-y-Garn, Llanfachreth.

Penderfynwyd rhoi gwybod mae angen fwy o wybodaeth cyn rhoi barn ar y cais.

c. Cais cynllunio NP5/54/255C. Dymchwel sied amaethyddol bresennol (maint 13.5m x 5.5m) o bren a sitiau sinc ac adeiladu sied amaethyddol newydd (maint 18.3m x 12.2m) o ffram ddur a clading a sitiau to metal (Ailgyflwyniad) Llwyn-y-Sarn, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais gan ychwanegu bydd y gwelliant yn tacluso'r fferm, yn addas i'r amgylchedd, ac o fantais i'r anifeiliaid.

ch. Cais cynllunio NP5/54/282B. Gosod 5 panel solar (430w) i do'r garej. Ty'n-y-Cefn, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

**9. Materion Ariannol**

a. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2023 – Mawrth 31, 2024:
Papur - £70.92
Inc- £628.34
Ring binder - £25.43
Stampiau post – £76.90
Cyfanswm- £801.59. (Llynedd roedd y costau yn £558.78).

Penderfynwyd talu'r costau.

b. Llythyr (23/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth Panel Annibynnol Cymru ar gyfer Gydnabyddiaeth Ariannol – Lwfansau Cynghorwyr at weithio gartref. Mae'r taliad yn £156 ac nid oes treth incwm i'w dalu. Mae angen i'r cynghorydd datgan yn ysgrifenedig (amgau mae templed i wneud hyn) ei fod yn gweithio o gartref yn rheolaidd .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2024: £1,171.01.
Balans yn y banc ar 29/5/2024: £10,807.26 (yn cynnwys praesept £6,000).

**10. Archwilio**

a. Llythyr (24/5/2024) oddi wrth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn cynwys 'Adroddiad Archwiliad Mewnol' y Cyngor.

Nid oedd materion yn codi o'r adroddiad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Gyda Archwilio Cymru angen cyfriflen banc hyd at mis Mehefin, bydd yr adroddiad yn cael ei anfon iddynt mis Awst.

c. Rhoddwyd 'Hysbysiad Archwilio' ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau ar 15/6/2024. '

Erbyn Mehefin 16 2024 roedd angen cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar yr hysbysfyrddau ac ar ein gwefan am 14 diwrnod. Wedi'r 14 diwrnod mae angen cyhoedd archwilio'r dogfennau am 20 diwrnod rhwng Gorffennaf 1 a Gorffennaf 26 2024.

Rhoddwyd yr hysbysiad (Cymraeg a Saesneg) ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrddau ar 15/6/2024.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Lamp Newydd Rhydymain. Llythyr (16/5/2024) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn awgrymu gosod lamp newydd yr un ochr ar lamp bresennol. Pris y gwaith fydd £1,700. Amgáu mae map yn dangos y lleoliad..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Diogelwch yn ardal Seren Fach, Brithdir (yn dilyn damwain arall yn yr ardal).
Yr wyf wedi siarad efo Andrew Gregson (peiriannydd Gwynedd) am y lleoliad yma eto.
Mae ef o'r farn nad oes tystiolaeth ar gyfer newid y cyflymder ar hyn o bryd gan y byddai hynny yn golygu fod y cyflymder ddim yr un a lleoliadau eraill heb oleuadau stryd y tu allan i bentref.
Er hynny, mae Andrew a mi wedi cytuno edrych ar y posibilrwydd o roi palmant yn y lleoliad fel rhan o gynlluniau " active travel" yn y lleoliad. O gael y palmant i gysylltu y lleoliad gyda'r pentref, fyddai hynny yn arwain at ddynodi y lleoliad fel un fyddai yn medru cael y cyflymder yn is.
Mae Andrew am gysylltu â Gerwyn Jones (dirprwy Iwan ap Trefor) ar gyfer trafod y mater yn llawn.

Yr wyf yn ddiolchgar iddo am symud ymlaen gyda'r mater yma ar fy rhan.
Mae Andrew yn gofyn pwy fyddai yn talu am y palmant neu "active travel" fel y mae ef yn cyfeirio ato.

Roedd yr aelodau yn holi os mae rheswm pam mae damwain yn digwydd ar ddarn hon o'r ffordd gydda'r ffordd yn llydan ac mewn lle agored..

**12. Materion yr Aelodau**

a. Llythyr (12/6/2024) oddi wrth Emlyn yn amgau llythyr i Neuadd Rhydymain gael cefnogaeth y Cyngor i'w cais am gael cegin arall i wneud hi'n hwylus i ddau grwp o ddefnyddwyr yn defnyddio'r neuadd ar yr un amser.

Anfonwyd y llythyr 14/6/2024.

b. Mae hysbysfwrdd Llanfachreth angen triniaeth gyda 'wood preserver'. Hefyd, mae amgen trwsio ffram y drws gyda glud.

Penderfynwyd i Gerallt rhoi sylw i'r hysbysfwrdd.

c. Mae angen naddu drws hysbysfwrdd Rhydymain i wneud hi'n bosib cau'r drws gyda'r bolten.

Penderfynwyd i Robin rhoi sylw i'r hysbysfwrdd.

Llofnod: Dyddiad: